| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Y Cyngor Llawn |
| **Dyddiad** | 5 Mawrth 2015 |
| **Teitl** | Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2015/16 |
| **Pwrpas** | Cymeradwyo Datganiad Polisi Tâl yn unol ag Adran 38(i) Deddf Lleoliaeth 2011 |
| **Awdur** | Prif Weithredwr – Dilwyn Williams |
| **Aelod Cabinet** | Cynghorydd  Peredur Jenkins |

1. **CEFNDIR**

1.1 Mae gofyn i'r Cyngor llawn bob blwyddyn fabwysiadau Datganiad Polisi Tâl ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

1.2 Gosodwyd y dasg gan y Cyngor i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion ffurfio polisi tâl ac i adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn. Cyfarfu'r Pwyllgor hwn ar 24ain o Chwefror a mabwysiadwyd yn unfrydol y polisi tâl sy'n ymddangos yn Atodiad 'A' er cymeradwyaeth y Cyngor heddiw.

1.3 Mae'r newid cyntaf i'r polisi blaenorol yn berthnasol i staff ar y cyflogau isaf. Y llynedd, bu i'r Cyngor benderfynu dileu dau bwynt cyflog isaf ei strwythur tâl fel cam tuag at geisio cyflwyno'r "Cyflog Byw" fel isafswm tâl. Yr argymhelliad yw bod y Cyngor yn dileu'r pwynt isaf ar y strwythur tâl (pwynt 7), a fyddai'n golygu bod yr isafswm cyflog y mae'r Cyngor yn ei dalu yn cynyddu o £7.11 yr awr i £7.19 yr awr. Mae'r manylion sy'n gysylltiedig â'r newid wedi eu cynnwys mewn adroddiad i'r Cabinet ar 19eg o Chwefror yn ymddangos yn Atodiad 'B'. Mae'r newid hwn, nid yn unig yn gwbl gyson â'r agenda tegwch ond hefyd yn arddangos bod y Cyngor yn adeiladu ar yr hyn a wnaed y llynedd ac yn cymryd cam pellach tuag at y "Cyflog Byw".

1.4 Ers sefydlu polisi tâl y flwyddyn diwethaf, 'rydym wedi diddymu swydd Pennaeth Gofal Cwsmer, swydd Pennaeth Cyfreithiol, un swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol a bydd swyddi presennol y Pennaeth Adnoddau Dynol a Phennaeth Strategol a Gwella yn cael eu dileu gan greu un swydd Pennaeth newydd oddi ar y 1af o Ebrill eleni. Mae'r holl gamau yma wedi arbed dros £700,000 mewn blwyddyn lawn ond er mwyn gwneud yr arbedion hyn 'roedd gofyn dyrannu nifer o gyfrifoldebau i'r Penaethiaid Adran eraill.

Comisiynwyd Hay Group i arfarnu'r rolau lle gwelwyd cynnydd mewn cyfrifoldebau. Yn fyr, mae'r adroddiad yn nodi tra bod arfarniad wedi dangos fod yna newid wedi bod ym maint y gwahanol swyddi, heblaw am un, nid oes newid digonol wedi bod i gyfiawnhau eu codi i'r band nesaf. Yr unig swydd sydd wedi newid band cyflog yn ôl asesiad Hay Group yw swydd y Pennaeth Cyllid sydd wedi codi'n sylweddol oherwydd yr ail ddyrannu swyddogaethau.

1.5 O fewn y polisi presennol wrth gwrs mae cyflogau Prif Swyddogion yn cael eu meincnodi yn erbyn y farchnad ac yn wyneb symudiadau yn y farchnad mae angen ystyried amseriad unrhyw ddiweddaru. Penderfynodd y Cyngor y flwyddyn diwethaf y byddai yn gwneud hyn yn 2015/16. Mae asesiad Hay Group yn awgrymu fod y meincnodau wedi cynyddu tua £1,500 ar gyfer swyddi Penaethiaid erbyn hyn.

Fodd bynnag, yn wyneb yr hinsawdd gyllidol yr ydym yn ei wynebu, ac effaith hynny ar nifer o staff y Cyngor, nid wyf yn ystyried ei fod yn amserol i wneud hynny ar hyn o bryd. ‘Rwyf wedi trafod y mater gyda’r Penaethiaid a’r Cyfarwyddwyr ac maent yn unfrydol gytûn gyda mi nad yw’n addas adolygu’r meincnodau yn bresennol. Argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion yw bod yr ystyriaeth nesaf yn cael ei roi i ail-raddio tâl gwirioneddol i lefelau meincnod pan yn adolygu Polisi Tal 2016/17 ac yn flynyddol wedi hynny.

1.6 Aeth Llywodraeth Cymru ati’n ddiweddar i ddiwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 a dod â’r diwygiadau i rym ar 1af o Orffennaf 2014, ac o ganlyniad i hynny cyflwynwyd y gofyniad newydd canlynol:

*“Mae’n rhaid i’r awdurdod perthnasol bennu lefel y cyflog a delir i brif swyddog, ac unrhyw newid yn lefel y cyflog hwnnw.”*

Effaith y diwygiad hwn yw bod yn rhaid i’r Cyngor llawn bleidleisio ar bob newid yng nghyflogau Prif Swyddogion, nid yn unig y rhai hynny a bennir yn lleol. Mae hynny’n cynnwys unrhyw godiadau cyflog y mae’r Cydgyngor Trafod Telerau wedi’u sicrhau yn genedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion, ac ni fydd modd talu’r codiadau hynny hyd oni cheir cymeradwyaeth y Cyngor llawn.

Mae’r negodi ar godiad cyflog cenedlaethol i Brif Swyddogion wedi arwain at ddyfarnu 2% ar eu cyflogau oddi ar y 1af o Ionawr, 2015. Mae derbyn y codiad cyflog cenedlaethol hwn yn hawl cytundebol gan y Prif Swyddogion yn yr un modd ag ar gyfer gweddill staff y Cyngor.

## 2. ARGYMHELLION

2.1 Bod y Cyngor llawn yn mabwysiadu’r Datganiad Polisi Tal sydd yn Atodiad ‘A’

2.2 Bod y Cyngor yn cymeradwyo addasiad i Ddatganiad Polisi Tal 2014/15 yn sgil y ffaith bod y codiad cyflog cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion wedi’i ol – ddyddio i’r 1af o Ionawr 2015.